1. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwneud Penderfyniadau Gwell a Thecach

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

Gwahardd gwerthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed yng Nghymru.

2. Beth mae eich cynnig yn anelu at ei gyflawni?

Nod y cynnig yw lleihau'r defnydd o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein gan blant a phobl ifanc er mwyn eu diogelu rhag y niwed posibl i'w hiechyd a chanlyniadau ehangach sy'n gysylltiedig â'u hyfed. Mae'n ceisio cefnogi ymddygiad deietegol iachach, gwella canlyniadau iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a chyfrannu at greu amgylcheddau bwyd iachach ledled Cymru. Mae'r cynnig yn rhan o gamau ataliol ehangach i gefnogi iechyd y cyhoedd a gwella canlyniadau i genedlaethau'r dyfodol.

3. Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?

Mehefin 22

4. Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'r polisi'n debygol o effeithio arnynt?

Ymhlith y grwpiau yr effeithir arnynt mae plant a phobl ifanc o dan 16 oed, rhieni a gofalwyr, manwerthwyr a busnesau, awdurdodau lleol a gwasanaethau safonau masnach, cyrff iechyd y cyhoedd, ysgolion, a sefydliadau'r trydydd sector. Gall y cynnig helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan fod plant a phobl ifanc mewn cymunedau â mwy o amddifadedd yn fwy tebygol o yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein, gan olygu ei bod yn bosibl mai nhw a gaiff y budd mwyaf o gyfyngiad ar eu gallu i gael gafael arnynt. Gall hyn gyfrannu at well canlyniadau iechyd i grwpiau sy'n wynebu mwy o risg o niwed.

5. Ydych chi wedi cofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar iShare?

Rhaid i chi gofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fyddwch yn dechrau datblygu eich cynnig.

Ydw

B. Effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig, a gwaith i ymgysylltu â nhw

Oedran

1. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.**

   Mae tystiolaeth o waith ymchwil i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys adolygiadau gan **Visram et al. (2016)**, y **Pwyllgor ar Docsigrwydd** ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru**, yn dangos bod defnydd o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein ymhlith plant a phobl ifanc yn gysylltiedig ag amhariad ar gwsg, llesiant gwaeth, anawsterau ymddygiad a lefelau ymgysylltu addysgol is. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod defnydd o'r cynhyrchion hyn yn fwy cyffredin ymhlith plant a phobl ifanc hŷn a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau â mwy o amddifadedd. Llywiodd y canfyddiadau hyn y cynnig i gyfyngu ar werthu i blant a phobl ifanc o dan 16 oed.

   Ategir y dystiolaeth hon gan adborth o ymgynghoriad <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-01/ymgynghoriad-crynodeb-or-ymatebion-diodydd-egni.pdf> Llywodraeth Cymru yn 2022 a'i galwad am dystiolaeth <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-12/crynodeb-or-ymatebion-ac-ymateb-llywodraeth-cymru-ir-galwad-am-dystoliaeth-mewn-perthynas-a-diodydd-egni-syn-cael-eu-hyfed-gan-blant.pdf> yn 2024, a dynnodd sylw at bryderon ynglŷn ag effeithiau yfed diodydd egni ar iechyd, llesiant a deilliannau addysgol plant.

2. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**

   Ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y bydd plant a phobl ifanc yn ymateb i'r cyfyngiad, gan gynnwys p'un a fydd rhai yn troi at gynhyrchion eraill sydd â chaffein ynddynt ai peidio. Ceir ansicrwydd hefyd ynglŷn â pha mor gyson y caiff gwiriadau oedran eu rhoi ar waith gan wahanol fanwerthwyr a dulliau gwerthu. Mae'n bosibl y caiff rhai pobl ifanc eu herio'n amlach oherwydd y ffordd y maent yn edrych, ac efallai y gwrthodir gwerthu i rai pobl 16 oed neu drosodd os na allant ddangos prawf oedran derbyniol. Caiff y materion hyn eu hystyried ymhellach drwy waith ymgynghori, cynllunio'r broses o roi'r polisi ar waith, a monitro ar ôl iddo gael ei roi ar waith.

3. **Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?**

   Rydym wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, manwerthwyr, busnesau, cyrff cyhoeddus, sefydliadau iechyd, cyrff cynrychiadol, sefydliadau'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb am fod y cynnig yn debygol o effeithio arnynt, neu am fod ganddynt arbenigedd sy'n berthnasol iddo. Ymgysylltwyd â phobl drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022, yr alwad am dystiolaeth yn 2024, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu, a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru. Defnyddiwyd y dulliau hyn i gasglu safbwyntiau gan y rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt a'r rhai sydd ag arbenigedd perthnasol. Roedd yr ymgynghoriad

yn 2022 hefyd yn cynnwys fersiwn hawdd ei deall er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch a helpu pobl i gymryd rhan.

4. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

   Mae tystiolaeth wedi llywio sawl agwedd allweddol ar y cynnig. Roedd gwaith ymchwil i batrymau defnydd ac effeithiau posibl ar iechyd, ynghyd ag adborth o'r ymgynghoriad yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024, yn ategu'r achos o blaid cyfyngu ar werthu i blant a phobl ifanc. Gwnaeth y dystiolaeth hefyd gyfrannu at bennu'r trothwy oedran arfaethedig, sef 16 oed, gan fod hynny'n adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid ac un o amcanion y polisi, sef diogelu plant gan osgoi cyfyngiadau diangen ar oedolion. Byddai oedolion yn dal i allu prynu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein, gan mai defnydd gan blant y mae'r dystiolaeth o bryder yn ymwneud ag ef yn bennaf. Mae tystiolaeth ac adborth gan randdeiliaid hefyd wedi llywio cwmpas arfaethedig y cyfyngiad, gan gynnwys y ffordd yr ymdrinnir â pheiriannau gwerthu a dulliau gwerthu eraill.

5. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

   Byddai'r cynnig yn cyfyngu ar werthu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein i blant o dan 16 oed er mwyn helpu i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant. Disgwylir iddo leihau'r defnydd o'r cynhyrchion hyn ac mae'n bosibl y bydd yn gwella iechyd corfforol, llesiant meddyliol, cwsg a deilliannau addysgol. Gall hefyd leihau cymeriant siwgr a chynnig rheol oedran gwerthu glir a chyson ledled Cymru.

   Ymhlith yr effeithiau negyddol posibl mae ymdeimlad ymhlith rhai plant fod eu dewis yn cael ei gyfyngu, anawsterau o ran gwirio oedran, a risg y bydd rhai pobl ifanc yn troi at gynhyrchion eraill sydd â chaffein ynddynt neu'n cael gafael ar ddiodydd egni drwy bobl eraill.

   Bwriedir i'r cynnig gael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc o dan 16 oed drwy gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o brofi effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cynhyrchion hyn, gan gynnwys effeithiau ar gwsg, llesiant, ymddygiad, a lefelau ymgysylltu addysgol. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith niweidiol sylweddol ar oedolion, gan y byddai oedolion yn dal i allu prynu diodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Disgwylir i unrhyw effeithiau ar oedolion fod yn gyfyngedig ac yn anuniongyrchol, er enghraifft drwy brosesau gwirio oedran arferol yn y man gwerthu.

   Ar y cyfan, disgwylir i'r effaith ar oedran fod yn gadarnhaol, cyn belled â bod y cyfyngiad yn cael ei roi ar waith yn deg, yn glir ac yn gyson.

6. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**

   I gynyddu effeithiau cadarnhaol, caiff negeseuon a chanllawiau clir eu rhannu er mwyn helpu pobl i ddeall y cyfyngiad a chydymffurfio ag ef. Bydd cyfnod gweithredu cymesur yn helpu busnesau i baratoi ar gyfer y newid. Caiff y polisi ei fonitro ar ôl iddo gael ei roi ar waith er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol a llywio'r broses o'i adolygu yn y dyfodol.

Anabledd

7. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.**

   Ni ddangosodd tystiolaeth o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 na'i galwad am dystiolaeth yn 2024 unrhyw effeithiau sy'n ymwneud yn benodol ag anabledd yn sgil yfed diodydd egni. Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth benodol ynghylch p'un a yw yfed diodydd egni'n cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc anabl ai peidio. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos y gall rhai pobl ifanc anabl neu niwrowahanol brofi anawsterau mewn perthynas â gwiriadau oedran, cyfathrebu â staff manwerthu, amgylcheddau synhwyraidd neu gael gafael ar fathau derbyniol o brawf adnabod. Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau gwirio oedran yn hygyrch ac yn gymesur.

8. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**

   Mae prinder y dystiolaeth sydd ar gael yn golygu na ellir dod i gasgliadau cadarn ynglŷn ag effeithiau gwahaniaethol mewn perthynas ag anabledd. Ceir tystiolaeth gyfyngedig o'r ffordd y gall gofynion gwirio oedran effeithio ar bobl ifanc anabl neu niwrowahanol. Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion yn wynebu heriau ychwanegol, er enghraifft oherwydd anawsterau cyfathrebu, sensitifrwydd synhwyraidd, gorbryder mewn lleoliadau manwerthu, neu anawsterau o ran cael gafael ar fathau cydnabyddedig o brawf adnabod. Gan nad oes ymgynghoriad ar y broses fanwl o roi'r cyfyngiad ar waith wedi cael ei gynnal eto, ceir ansicrwydd ynghylch graddau unrhyw effeithiau o'r fath. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar y materion hyn er mwyn helpu i lywio'r polisi terfynol ac unrhyw ganllawiau ategol.

9. **Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?**

   Rydym wedi ceisio barn plant, pobl ifanc, unigolion, sefydliadau, manwerthwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Yn ystod y gwaith ymgysylltu hwn, gofynnwyd am safbwyntiau ar b'un a ddylid cyflwyno cyfyngiad oedran ai peidio, y trothwy oedran priodol, y defnydd o ddiodydd egni ymhlith plant a phobl ifanc, effeithiau posibl cyfyngiad, trefniadau gwirio oedran, y cwmpas o ran cynhyrchion, dulliau gwerthu, ac ystyriaethau o ran rhoi'r polisi ar waith a'i orfodi. Hefyd, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o ymgynghoriad 2022 er mwyn helpu i wneud y cynigion yn fwy hygyrch a helpu pobl i gymryd rhan.

10. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

    Ceir tystiolaeth gyfyngedig o'r ffordd y gall gofynion gwirio oedran effeithio ar bobl ifanc anabl neu niwrowahanol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai unigolion

yn wynebu heriau ychwanegol, er enghraifft oherwydd anawsterau cyfathrebu, sensitifrwydd synhwyraidd, gorbryder mewn lleoliadau manwerthu, neu anawsterau o ran cael gafael ar fathau cydnabyddedig o brawf adnabod. Gan nad oes ymgynghoriad ar y broses fanwl o roi'r cyfyngiad ar waith wedi cael ei gynnal eto, ceir ansicrwydd ynghylch graddau unrhyw effeithiau o'r fath. Mae hyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried hygyrchedd wrth i'r polisi ddatblygu, gan gynnwys drwy ganllawiau, cyfathrebu a hyfforddi staff, a monitro am unrhyw effeithiau anfwriadol ar ôl rhoi'r polisi ar waith.

Tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch p'un a yw yfed diodydd egni'n cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc anabl ai peidio, a thystiolaeth gyfyngedig ar effaith bosibl gwiriadau oedran ar bobl ifanc anabl neu niwrowahanol hefyd. Yn sgil yr ansicrwydd hwn, mae'r cyfyngiad arfaethedig wedi cael ei ddylunio i fod yn berthnasol mewn modd cyson i bob plentyn o dan 16 oed, gan osgoi'r angen i fanwerthwyr neu awdurdodau gorfodi wneud penderfyniadau ar sail anabledd neu nodweddion personol eraill. Mae ystyriaethau hygyrchedd hefyd wedi llywio'r penderfyniad i ymgynghori ar y fframwaith gweithredu a gorfodi manwl cyn i'r cyfyngiad gael ei gyflwyno. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod canllawiau, negeseuon a roddir i fanwerthwyr, ac arferion gorfodi yn cefnogi prosesau gwirio oedran cymesur a hygyrch, yn lleihau rhwystrau ar gyfer pobl ifanc anabl a niwrowahanol, ac yn helpu i roi'r gofynion ar waith yn gyson ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y materion hyn wrth ddatblygu'r polisi, a bydd yn monitro unrhyw effeithiau anfwriadol ar ôl iddo gael ei roi ar waith.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos y byddai effeithiau'r cynnig yn amrywio'n sylweddol ar sail anabledd. Gall plant a phobl ifanc anabl gael budd o ddod i lai o gysylltiad â'r niwed posibl sy'n gysylltiedig ag yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein yn yr un ffordd â phlant a phobl ifanc eraill. Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch sut y gall gofynion gwirio oedran effeithio ar bobl ifanc anabl neu niwrowahanol yn ymarferol, a chaiff hyn ei ystyried ymhellach drwy waith ymgynghori, cynllunio'r broses o roi'r polisi ar waith, a monitro yn y dyfodol.

12. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn ceisio sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith mewn ffordd hygyrch a chynhwysol drwy gyfathrebu'n glir a rhoi canllawiau clir i fanwerthwyr.

Hil

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Mae tystiolaeth o waith ymchwil i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys adolygiadau gan **Visram et al. (2016)**, y **Pwyllgor ar Docsigrwydd** ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru**, yn dangos cysylltiadau rhwng yfed llawer o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein a chanlyniadau niweidiol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys amhariad ar gwsg, llesiant gwaeth a lefelau ymgysylltu addysgol is. Fodd bynnag, nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth gadarn ynghylch yfed diodydd egni na'u heffeithiau yn ôl grŵp hil neu ethnig ar gyfer Cymru yn benodol, na thystiolaeth

sy'n dangos y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl o grwpiau hil neu ethnig penodol.

Ni ddangosodd tystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 a'i galwad am dystiolaeth yn 2024 bryderon penodol mewn perthynas â hil nac ethnigrwydd. Felly, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael er mwyn asesu effeithiau gwahaniaethol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth gadarn ar gyfer Cymru yn benodol i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahaniaethol ar bobl o grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol. Fodd bynnag, gall trefniadau gwirio oedran beri risg bosibl o roi'r polisi ar waith yn anghyson os na chaiff gwiriadau eu cynnal mewn modd teg a chyson. Mae hyn wedi llywio'r mesurau lliniaru arfaethedig, sy'n cynnwys cyfathrebu clir, gwybodaeth hygyrch, canllawiau i fanwerthwyr a hyfforddiant i staff. O ystyried y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol a monitro'r ffordd y caiff y polisi ei roi ar waith er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol a all godi.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth gadarn ar gyfer Cymru yn benodol i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahaniaethol ar bobl o grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol. Yn absenoldeb tystiolaeth sy'n dangos effeithiau gwahaniaethol, mae'r cyfyngiad arfaethedig wedi cael ei ddylunio i fod yn berthnasol modd cyson i bob plentyn o dan 16 oed, waeth beth fo'i hil neu ei ethnigrwydd. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael wedi dangos bod angen i drothwyon oedran, diffiniadau o gynhyrchion, eithriadau na threfniadau gorfodi fod yn wahanol ar gyfer grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a ddaw i law drwy waith ymgynghori cyn cadarnhau'r polisi terfynol.

15. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr, cyrff masnach, awdurdodau gorfodi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Diben y gwaith ymgysylltu hwn oedd deall patrymau defnydd o ddiodydd egni ymhlith plant, effeithiau posibl cyfyngiad ar iechyd a chydraddoldeb, priodoldeb trothwy oedran 16 oed, a'r goblygiadau ymarferol i fusnesau, defnyddwyr ac awdurdodau gorfodi. Hefyd, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o ymgynghoriad 2022 er mwyn helpu i wneud y cynnig yn hygyrch a helpu pobl i gymryd rhan.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau y caiff trefniadau gwirio oedran eu rhoi ar waith yn deg ac yn gyson. Mae wedi dangos bod angen cyfathrebu clir, gwybodaeth hygyrch, canllawiau i fanwerthwyr a hyfforddiant i staff er mwyn lleihau'r risg o driniaeth annheg a sicrhau bod pobl yn deall y gofynion.

Hefyd, mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael wedi atgyfnerthu'r angen i barhau i ymgysylltu a monitro er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol ar gyfer grŵp hil neu grŵp ethnig penodol.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth gadarn ar gyfer Cymru'n benodol i awgrymu y byddai yfed diodydd egni, na'r cyfyngiad arfaethedig, yn arwain at effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol. Felly, mae'r dystiolaeth sydd ar gael wedi llywio'r broses o ddatblygu cyfyngiad a fydd yn berthnasol mewn modd cyson i bob plentyn o dan 16 oed, waeth beth fo'i hil neu ei ethnigrwydd. Gan na ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw effeithiau gwahaniaethol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylai trothwyon oedran, cwmpas o ran cynhyrchion, eithriadau na threfniadau gorfodi fod yn wahanol ar gyfer grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a ddaw i law drwy waith ymgynghori cyn cadarnhau'r polisi terfynol.

17. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein yn amrywio'n sylweddol rhwng grwpiau hil neu grwpiau ethnig, nac y byddai effeithiau'r cynnig yn amrywio'n sylweddol yn ôl hil neu ethnigrwydd. Felly, disgwylir i'r cynnig gael effaith debyg ar wahanol grwpiau hil a grwpiau ethnig ar y cyfan, ac nid oes effeithiau niweidiol uniongyrchol wedi cael eu canfod. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau ethnig lleiafrifol yn profi cyfraddau uwch o ordewdra yn ystod plentyndod ac felly mae'n bosibl y byddant yn profi mwy o fanteision iechyd yn sgil mesurau sy'n cefnogi deietau iachach ac yn gwella canlyniadau iechyd i blant a phobl ifanc.

18. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn gweithio i sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith yn deg ac yn gyson drwy gyfathrebu clir, canllawiau i fanwerthwyr a hyfforddiant i staff. Caiff gwybodaeth ei rhannu mewn fformatau hygyrch lle bo hynny'n briodol, a bydd ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb hil yn helpu i ganfod unrhyw faterion a all godi.

Byddwn hefyd yn monitro cwynion, adborth a data ar orfodi er mwyn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o effeithiau anghymesur neu arferion gwirio oedran anghyson, a byddwn yn adolygu canllawiau a threfniadau ar gyfer rhoi'r polisi ar waith os bydd angen. Bydd effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â threfniadau gwirio oedran, cyfathrebu a hygyrchedd yn parhau i gael eu hystyried drwy waith ymgynghori a chynllunio ar gyfer rhoi'r polisi ar waith.

Crefydd, Cred neu Anghred

19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Nid oes tystiolaeth o waith ymchwil i iechyd y cyhoedd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 na'i galwad am dystiolaeth yn 2024 wedi dangos perthynas rhwng yfed diodydd egni a chrefydd,

cred neu anghred. Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth bod pobl o wahanol grefyddau neu gredoau yn yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein mewn ffordd wahanol, na thystiolaeth sy'n dangos y byddai'r cyfyngiad arfaethedig yn cael effaith wahanol arnynt. Ni chodwyd pryderon penodol mewn perthynas â chrefydd, cred nac anghred drwy'r ymgynghoriad na'r alwad am dystiolaeth. Felly, tystiolaeth gyfyngedig a geir o unrhyw effeithiau gwahaniaethol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

20. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch unrhyw berthynas rhwng crefydd, cred neu anghred ac yfed diodydd egni. Nid ydym wedi dod o hyd i waith ymchwil, tystiolaeth gan randdeiliaid, ymatebion i ymgyngoriadau na thystiolaeth arall sy'n dangos bod pobl o wahanol grefyddau neu gredoau yn yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein mewn ffordd wahanol nac yn profi canlyniadau gwahanol o ganlyniad i'w hyfed.

21. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr, cyrff masnach, awdurdodau gorfodi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Ymgysylltwyd â'r grwpiau hyn er mwyn helpu i ddeall patrymau defnydd o ddiodydd egni ymhlith plant a phobl ifanc, effeithiau posibl cyfyngiad ar iechyd a chydraddoldeb, a goblygiadau ymarferol rhoi'r polisi ar waith a'i orfodi. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

Ni chodwyd pryderon penodol mewn perthynas â chrefydd, cred nac anghred drwy'r gwaith ymgysylltu a wnaed. Bydd gwaith ymgysylltu pellach yn ystod y broses o roi'r polisi ar waith yn cynnig cyfleoedd i ganfod unrhyw effeithiau nas rhagwelwyd.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth o gysylltiad rhwng yfed diodydd egni, nac effeithiau'r cyfyngiad arfaethedig, a chrefydd, cred neu anghred. Felly, nid oes newidiadau penodol wedi cael eu gwneud i ddyluniad y polisi mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bydd y cynnig yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o drefniadau ehangach ar gyfer rhoi'r polisi ar waith a'i werthuso.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol drwy gyfyngu ar allu plant i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein a'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â'u hyfed. Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth sy'n dangos y byddai'r manteision hyn yn amrywio yn ôl crefydd, cred neu anghred, ac nid oes effeithiau niweidiol penodol wedi cael eu canfod mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

24. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Nid oes angen mesurau lliniaru penodol gan nad oes effeithiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu anghred wedi cael eu canfod. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod y cyfathrebu'n glir ac yn hygyrch, yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i'r polisi ddatblygu, ac yn monitro adborth a chwynion er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol a all ddatblygu ar ôl i'r polisi gael ei roi ar waith.

Rhyw

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Daw tystiolaeth o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 a'i galwad am dystiolaeth yn 2024, a ystyriodd effeithiau posibl cyfyngu ar werthu diodydd egni i blant o dan 16 oed ar iechyd a chydraddoldeb, ac effeithiau posibl y ffordd y caiff y cyfyngiad ei roi ar waith. Roedd adolygiad gan Khouja et al. (2022) a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ac a gyhoeddwyd yn BMJ Open yn dangos bod bechgyn yn yfed diodydd egni yn fwy rheolaidd na merched.

26. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod bechgyn yn fwy tebygol o yfed diodydd egni na merched, mae'r sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig ac nid yw'n asesu gwahaniaethau rhwng patrymau defnydd na chanlyniadau cysylltiedig yn ôl rhyw mewn ffordd gyson. Hefyd, tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch p'un a yw unrhyw wahaniaethau mewn defnydd yn arwain at ganlyniadau iechyd gwahanol i fechgyn a merched ai peidio. Felly, tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch p'un a fydd y polisi'n effeithio ar fechgyn a merched yn wahanol yn ymarferol ar ôl iddo gael ei roi ar waith ai peidio.

27. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Roedd y rhain yn gofyn am wybodaeth am ddefnydd plant o ddiodydd egni, effeithiau posibl ar iechyd, ystyriaethau ym maes cydraddoldeb a phroblemau o ran rhoi'r polisi ar waith. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth wedi atgyfnerthu'r achos o blaid cyflwyno cyfyngiad ar werthu i blant o dan 16 oed. Mae'r dystiolaeth sy'n dangos mwy o ddefnydd ymhlith bechgyn yn awgrymu y gallai'r polisi arwain at fwy o fanteision i fechgyn, gan fod yn berthnasol mewn modd cyfartal i bob plentyn o dan 16 oed o hyd. Mae'r dystiolaeth hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i fonitro'r effeithiau yn ôl rhyw ar ôl i'r polisi gael ei roi ar waith.

29. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar fechgyn ac ar ferched drwy gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein a'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â'u hyfed. Gan fod tystiolaeth yn dangos bod bechgyn yn yfed diodydd egni'n amlach, mae'n bosibl y byddant yn profi mwy o fanteision iechyd yn sgil y cyfyngiad. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau niweidiol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â rhyw.

Ar y cyfan, disgwylir i'r effaith fod yn gadarnhaol.

30. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Bydd y polisi'n berthnasol mewn modd cyson i bob plentyn o dan 16 oed. Byddwn yn monitro'r ffordd y caiff ei roi ar waith a, lle y bydd data ar gael, byddwn yn ystyried defnydd a chanlyniadau yn ôl rhyw er mwyn deall p'un a yw'r polisi'n arwain at fanteision mewn modd cyfartal ai peidio. Bydd cyfathrebu clir, canllawiau i fanwerthwyr a monitro parhaus yn helpu i sicrhau y caiff y cyfyngiad ei roi ar waith yn deg ac yn effeithiol.

Ailbennu Rhywedd

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Daw tystiolaeth o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 a'i galwad am dystiolaeth yn 2024, a ystyriodd effeithiau posibl cyfyngu ar werthu diodydd egni i blant o dan 16 ar gydraddoldeb. Roedd tystiolaeth y cyfeiriwyd ati drwy'r alwad am dystiolaeth yn awgrymu defnydd dyddiol uwch ymhlith rhai pobl ifanc nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fechgyn nac yn ferched. Rydym wedi dod o hyd i dystiolaeth gyfyngedig ynghylch patrymau defnydd ymhlith pobl ifanc rywedd-amrywiol, ac nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn cynnig modd i ddod i gasgliadau cadarn ynglŷn â gwahaniaethau mewn defnydd na chanlyniadau cysylltiedig. Mae'r ansicrwydd yn gysylltiedig ag argaeledd a chadernid y dystiolaeth ar gyfer y nodwedd warchodedig hon yn hytrach na chanfyddiadau croes yn y sylfaen dystiolaeth.

Roedd tystiolaeth a ystyriwyd drwy'r alwad am dystiolaeth yn 2024 yn awgrymu y gall defnydd dyddiol o ddiodydd egni fod yn uwch ymhlith rhai pobl ifanc nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fechgyn nac yn ferched, o gymharu â'r defnydd ymhlith bechgyn neu ferched. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth glir y byddai'r cyfyngiad arfaethedig yn effeithio ar bobl yn wahanol ar sail rhyw. Roedd y dystiolaeth a oedd ar gael ar gyfer y nodwedd warchodedig hon yn gyfyngedig ac nid oedd yn dangos bod angen trothwyon oedran, cwmpas o ran cynhyrchion, eithriadau na threfniadau gorfodi gwahanol.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith y cynnig ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn gyfyngedig. Nid ydym wedi dod o hyd i

dystiolaeth sy'n dangos y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar y grŵp hwn o gymharu â grwpiau eraill. Hefyd, tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch y ffordd y gall gofynion gwirio oedran effeithio ar bobl ifanc drawsryweddol neu rywedd-amrywiol yn ymarferol.
Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â phobl ifanc rywedd-amrywiol yn gyfyngedig, ac nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon cadarn i allu dod i gasgliadau pendant ynglŷn â gwahaniaethau mewn patrymau defnydd o ddiodydd egni neu ganlyniadau cysylltiedig. Felly, mae'r graddau y gall y cynnig gael effaith wahanol ar bobl ifanc rywedd-wahanol o gymharu â grwpiau eraill yn ansicr.

33. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Gofynnodd yr ymarferion hyn i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr a sefydliadau eraill sydd â diddordeb am eu safbwyntiau ar ddefnydd o ddiodydd egni ymhlith plant, yr effeithiau posibl ar iechyd, a'r goblygiadau posibl i gydraddoldeb yn sgil cyfyngiad. Bwriad y gwaith ymgysylltu oedd helpu i wybod a allai'r cynnig gael effaith wahanol ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig megis ailbennu rhywedd, ac a oedd angen ystyried unrhyw faterion mewn perthynas â rhoi'r polisi ar waith. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael wedi dangos y byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau penodol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â phobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn gyfyngedig ac nid yw'n cynnig sylfaen ddigon cadarn i allu dod i gasgliadau pendant ynghylch p'un a yw patrymau defnydd o ddiodydd egni neu'r canlyniadau cysylltiedig yn wahanol i'r rhai ar gyfer pobl o grwpiau eraill. Felly, nid oes achos seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ganfod o blaid bennu trothwyon oedran, cwmpas o ran cynhyrchion, eithriadau na threfniadau gorfodi gwahanol ar gyfer pobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon, ac felly nid oes newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cynnig. Caiff unrhyw dystiolaeth bellach a ddaw i law drwy waith ymgynghori ei hystyried cyn i'r polisi gael ei gadarnhau'n derfynol.

Byddai'r cyfyngiad yn berthnasol ar sail oedran yn hytrach na rhyw, hunaniaeth rhywedd neu statws ailbennu rhywedd, a byddai'n berthnasol mewn modd cyfartal i bob unigolyn o dan 16 oed. Felly, nid yw'r dystiolaeth wedi arwain at unrhyw newidiadau i'r cynnig polisi. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried effeithiau ar gydraddoldeb wrth i'r polisi gael ei roi ar waith a'i adolygu.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Gall y cynnig arwain at effeithiau cadarnhaol drwy leihau cysylltiad â'r niwed posibl i iechyd sy'n gysylltiedig ag yfed diodydd egni. Lle bo'r defnydd yn uwch

ymhlith rhai pobl ifanc rhywedd-amrywiol, mae'n bosibl y bydd y manteision yn fwy hefyd.

Effeithiau sy'n gysylltiedig â'r broses o roi'r polisi ar waith yw'r effeithiau negyddol posibl yn bennaf. Gall rhai pobl ifanc rywedd-amrywiol brofi gorbryder neu anesmwythyd yn ystod gwiriadau oedran, yn enwedig os bydd eu hedrychiad neu eu dogfennau adnabod yn wahanol. Os na chaiff gwiriadau oedran eu cynnal mewn ffordd sensitif, gallai hyn arwain at embaras neu ofid.

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael wedi dangos y byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau penodol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, yn yr un modd â chynhyrchion eraill sydd â chyfyngiad oedran, gall gofynion gwirio oedran gyflwyno ystyriaethau o ran eu rhoi ar waith ar gyfer rhai unigolion. Mae'r graddau y gallai hyn effeithio ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn ansicr, gan fod y dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig a chan nad yw'n cynnig sail ddigon cadarn i allu dod i gasgliadau pendant.

Mae rhywfaint o'r dystiolaeth yn awgrymu y gall y defnydd o ddiodydd egni fod yn uwch ymhlith pobl ifanc nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fechgyn nac yn ferched, o gymharu â'r defnydd ymhlith bechgyn neu ferched. Os felly, gallai'r cynnig arwain at fwy o fanteision iechyd i'r grŵp hwn drwy leihau eu defnydd o ddiodydd egni. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, ac nid yw'n ddigon cadarn i allu dod i gasgliadau pendant ynghylch p'un a yw patrymau defnydd, niwed cysylltiedig neu fanteision tebygol y cynnig yn wahanol i'r rhai a brofir gan grwpiau eraill ai peidio.

Ar y cyfan, disgwylir i'r effaith fod yn gadarnhaol, cyn belled â bod y polisi'n cael ei roi ar waith mewn ffordd deg, barchus a chynhwysol.

36. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn ceisio sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith mewn ffordd gynhwysol a pharchus drwy gyfathrebu clir a chanllawiau i fanwerthwyr. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau a phobl ifanc yn ystod y broses o roi'r polisi ar waith ac yn adolygu canllawiau os daw tystiolaeth o effeithiau anfwriadol i'r amlwg.
Dylai trefniadau gwirio oedran fod yn gymesur a chael eu dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o anesmwythyd neu her amhriodol i bobl ifanc rywedd-amrywiol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth uniongyrchol sy'n dangos y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

38. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Tystiolaeth gyfyngedig a geir o unrhyw berthynas rhwng cyfeiriadedd rhywiol ac yfed diodydd egni. Nid ydym wedi dod o hyd i waith ymchwil, tystiolaeth gan

randdeiliaid, ymatebion i ymgyngoriadau na thystiolaeth arall sy'n dangos bod pobl â gwahanol fathau o gyfeiriadedd rhywiol yn yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein mewn ffordd wahanol nac yn profi canlyniadau gwahanol o ganlyniad i'w hyfed. Felly, nid oes digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

39. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Gofynnodd yr ymarferion hyn am safbwyntiau gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr, cyrff masnach, awdurdodau gorfodi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Diben y gwaith ymgysylltu hwn oedd deall defnydd plant o ddiodydd egni, effeithiau posibl cyfyngiad ar iechyd, ac a allai'r cynnig arwain at effeithiau gwahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth benodol o gysylltiad rhwng yfed diodydd egni, nac effeithiau'r cyfyngiad arfaethedig, a chyfeiriadedd rhywiol. Felly, nid oes newidiadau penodol wedi cael eu gwneud i ddyluniad y polisi mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bydd y polisi'n parhau i gael ei ystyried ochr yn ochr â threfniadau ehangach sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, rhoi'r polisi ar waith a'i fonitro wrth iddo ddatblygu.

41. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Nid oes effeithiau niweidiol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol wedi cael eu canfod. Bydd y cynnig yn berthnasol mewn modd cyfartal i bob plentyn o dan 16 oed waeth beth fo'i gyfeiriadedd rhywiol.

Nid oes effeithiau niweidiol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol wedi cael eu canfod. Bydd y cynnig yn berthnasol mewn modd cyfartal i bob plentyn o dan 16 oed waeth beth fo'i gyfeiriadedd rhywiol, a bwriedir iddo arwain at yr un manteision posibl i iechyd ar gyfer pob grŵp drwy gyfyngu ar allu plant i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein ac unrhyw niwed cysylltiedig i iechyd. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael wedi dangos bod angen trothwyon oedran, cwmpas o ran cynhyrchion, eithriadau na threfniadau gorfodi gwahanol ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

42. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn sicrhau bod y cyfathrebu a'r trefniadau ar gyfer rhoi'r polisi ar waith yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob person ifanc.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Mae'r dystiolaeth ynghylch unrhyw berthynas rhwng beichiogrwydd, mamolaeth ac yfed diodydd egni yn gyfyngedig. Nid oedd y dystiolaeth a welwyd, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024, yn cyfeirio at unrhyw waith ymchwil na thystiolaeth i awgrymu bod pobl sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu sy'n bwydo ar y fron yn yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein mewn ffordd wahanol i grwpiau eraill. Mae labeli ar gynhyrchion eisoes yn cynghori menywod beichiog a menywod sy'n bwydo ar y fron i osgoi cymeriant caffein uchel.

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein ymhlith pobl sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu sy'n bwydo ar y fron yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ceir sylfaen dystiolaeth sefydledig mewn perthynas â'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â defnydd gormodol o gaffein yn ystod beichiogrwydd, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y gofynion presennol i roi labeli cynghori ar ddiodydd sy'n uchel mewn caffein ar gyfer menywod beichiog a menywod sy'n bwydo ar y fron. Nid oedd y dystiolaeth a welwyd, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid o'r ymgynghoriad yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024, yn dangos bod y grwpiau hyn yn yfed diodydd egni sy'n uchel mewn caffein mewn ffordd wahanol i grwpiau eraill nac y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol arnynt. Felly, nid oes newidiadau penodol wedi cael eu gwneud i'r cynnig mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

44. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Er mai tystiolaeth gyfyngedig a geir ynghylch effaith benodol y cynnig ar bobl sy'n feichiog, sy'n famau newydd neu sy'n bwydo ar y fron, ceir sylfaen dystiolaeth sefydledig mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd gormodol o gaffein yn ystod beichiogrwydd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gofynion presennol i roi labeli cynghori ar ddiodydd sy'n uchel mewn caffein yn datgan nad argymhellir i blant, menywod sy'n feichiog na menywod sy'n bwydo ar y fron eu hyfed. Nid oedd y dystiolaeth a welwyd, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024, yn dangos y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl sy'n feichiog, sy'n famau newydd neu sy'n bwydo ar y fron. Gan mai ar sail oedran y bydd y cyfyngiad yn berthnasol yn hytrach na beichiogrwydd neu statws mamolaeth, nid oes achos seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ganfod o blaid addasu'r cynnig mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

45. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Gofynnodd yr ymarferion hyn am safbwyntiau gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr, cyrff masnach, awdurdodau gorfodi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Diben y gwaith ymgysylltu hwn oedd deall defnydd plant

o ddiodydd egni, eu heffaith ar iechyd a llesiant, ac a allai'r cynnig arwain at effeithiau gwahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos unrhyw sail dros gredu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl sy'n feichiog, sy'n famau newydd neu sy'n bwydo ar y fron. Er bod sylfaen dystiolaeth sefydledig mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd gormodol o gaffein yn ystod beichiogrwydd ac wrth fwydo ar y fron, ar sail oedran y bydd y cyfyngiad arfaethedig yn berthnasol, yn hytrach na beichiogrwydd neu statws mamolaeth. Felly, nid oes achos seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ganfod o blaid gwneud newidiadau i'r trothwy oedran, y cwmpas o ran cynhyrchion, yr eithriadau na'r trefniadau gorfodi arfaethedig mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Caiff unrhyw dystiolaeth bellach a ddaw i law drwy waith ymgynghori ei hystyried cyn i'r polisi gael ei gadarnhau'n derfynol.

47. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Nid oes effeithiau niweidiol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu famolaeth wedi cael eu canfod. Bydd y cynnig yn berthnasol mewn modd cyfartal i bob plentyn o dan 16 oed p'un a yw'n feichiog neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau cysylltiedig â mamolaeth ai peidio.

Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc o dan 16 oed sy'n feichiog yn cael budd o'r un amddiffyniadau â phlant eraill drwy gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein. Ar y cyfan, disgwylir i'r effaith ar feichiogrwydd a mamolaeth fod yn niwtral neu'n gadarnhaol.

48. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Nid oes angen mesurau lliniaru penodol gan nad oes effeithiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu famolaeth wedi cael eu canfod. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y cyfathrebu'n glir ac yn hygyrch, ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol lle bo hynny'n briodol, a monitro adborth a data ar roi'r polisi ar waith er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylech gynnwys y canfyddiadau o unrhyw waith ymgysylltu.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl oherwydd statws priodas neu bartneriaeth sifil.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid ydym wedi dod o hyd i waith ymchwil, tystiolaeth gan randdeiliaid, ymatebion i ymgyngoriadau na thystiolaeth arall sy'n awgrymu bod statws priodas neu bartneriaeth sifil yn dylanwadu ar y defnydd o ddiodydd egni sy'n uchel mewn

caffein na'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'u hyfed. O ganlyniad i hynny, nid oes tystiolaeth wedi cael ei chanfod i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl â statws priodas neu bartneriaeth sifil gwahanol, ac felly nid oes newidiadau wedi cael eu gwneud i'r polisi mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

51. Pwy ydych chi wedi ymgysylltu â nhw, pam a sut?

Casglwyd safbwyntiau a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022 a'r alwad am dystiolaeth yn 2024. Gofynnodd yr ymarferion hyn am safbwyntiau gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, sefydliadau iechyd, rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb, manwerthwyr, cyrff masnach, awdurdodau gorfodi a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Diben y gwaith ymgysylltu hwn oedd deall defnydd plant o ddiodydd egni, effeithiau posibl cyfyngiad ar iechyd, ac a allai'r cynnig arwain at effeithiau gwahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys statws priodas a phartneriaeth sifil. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad er mwyn helpu i'w wneud yn fwy hygyrch.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Ni ddaethpwyd o hyd i waith ymchwil, tystiolaeth gan randdeiliaid, ymatebion i ymgyngoriadau na thystiolaeth arall i awgrymu bod statws priodas neu bartneriaeth sifil yn dylanwadu ar y defnydd o ddiodydd egni sy'n uchel mewn caffein nac y byddai'n effeithio ar brofiad unigolion o'r cyfyngiad arfaethedig. O ganlyniad i hynny, nid oes tystiolaeth wedi cael ei chanfod i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith wahanol ar bobl â statws priodas neu bartneriaeth sifil gwahanol, ac felly nid oes angen am newid i'r trothwy oedran, y cwmpas o ran cynhyrchion, yr eithriadau na'r trefniadau gorfodi arfaethedig wedi ei ganfod.

Mae'r nodwedd warchodedig yn annhebygol o fod yn uniongyrchol berthnasol i'r prif grŵp y bydd y cynnig yn effeithio arno, gan mai i blant o dan 16 oed y bydd y cyfyngiad yn berthnasol. Nid oedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â phriodas neu bartneriaeth sifil.

53. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol sy'n gysylltiedig â phriodas neu bartneriaeth sifil wedi cael eu canfod. Nid yw'r cynnig yn trin pobl yn wahanol oherwydd eu statws priodas neu bartneriaeth sifil.

Ar y cyfan, disgwylir i'r effaith ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil fod yn niwtral.

54. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Nid oes angen mesurau lliniaru penodol gan nad oes effeithiau sy'n gysylltiedig â phriodas neu bartneriaeth sifil wedi cael eu canfod.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. **A yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn barod i gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?**

   Ydy

2. **Os na alwch gyhoeddi'r Asesiad, esboniwch pam.**

   Amh.

3. **Ai diweddariad i fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol yw'r Asesiad hwn?**

   Ie

4. **Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd o ran y materion yn ymwneud â chydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad hwn?**

   Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei rhoi ar waith drwy ymgysylltu'n barhaus â manwerthwyr, awdurdodau gorfodi a rhanddeiliaid eraill. Caiff unrhyw dystiolaeth o effeithiau gwahaniaethol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ei hystyried fel rhan o drefniadau monitro ac adolygu ehangach y polisi. Caiff data ac adborth gan randdeiliaid perthnasol eu hadolygu ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith er mwyn canfod unrhyw effeithiau anfwriadol ar gydraddoldeb a llywio'r broses o ddatblygu'r polisi yn y dyfodol. Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain y polisi fydd yn gyfrifol am ei fonitro a'i werthuso, gan weithio gyda phartneriaid cyflawni a gorfodi perthnasol. Caiff gwaith monitro ei wneud yn ystod y broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith ac fel rhan o unrhyw adolygiad ohoni wedi hynny.

D. Awdurdodiad

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'r briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad o ran cyhoeddi wedi cael ei ystyried yn briodol.

Llofnod: E A WILSON

Adran: Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwella Iechyd y Cyhoedd